Tarzana

## Cymdeithas Tarzan
## Gogledd Cymru

Ionawr 2012

Annwyl Robert

Croeso! Mae hi bob amser yn bleser cael croesawu aelodau newydd i'n cymdeithas.

Nod y gymdeithas yw mwynhau llyfrau a ffilmiau Tarzan, arwr y jyngl, a chofio am yr awdur a greodd y cymeriad hwn, sef Edgar Rice Burroughs. Er iddo ysgrifennu llyfrau ffug-wyddonol a llyfrau ditectif, nofelau antur a llyfrau cowboi, Tarzan, mae'n si□r, oedd ei greadigaeth bwysicaf.

Cyhoeddwyd y llyfr cyntaf am yr arwr hwn, *Tarzan of the Apes*, gan mlynedd yn ôl, yn 1912. Ysgrifennodd Edgar Rice Burroughs 24 arall yn ystod ei oes a chafodd nifer helaeth o ffilmiau eu gwneud - yr un gyntaf ohonynt yn 1918.

Ar gefn y llythyr hwn, fe welwch chi restr o **Ddigwyddiadau'r Flwyddyn**. Eleni, rydym wedi trefnu sgyrsiau gan arbenigwyr ar Tarzan, darlithoedd ar blanhigion, coed ac anifeiliaid y jyngl a chyfleoedd i weld rhai o'r ffilmiau Tarzan cyntaf yn ogystal â rhai o'r rhai diweddaraf. Hoffwn dynnu eich sylw at un digwyddiad yn arbennig - ein hymweliad cyntaf â Tarzana, ardal yn Los Angeles, Gogledd America.  Yn 1919, prynodd Edgar Rice Burroughs dir yn yr ardal a chodi ransh fawr yno, gan ei henwi'n Tarzana, ar ôl ei gymeriad. Cafodd y tir ei werthu rai blynyddoedd wedyn ar gyfer adeiladu tai. Yn 1927, penderfynodd y bobl a oedd yn byw yno alw'r dref yn Tarzana - ar ôl cymeriad Burroughs - a dyna lle byddwn ni'n mynd eleni.

Heddiw, mae dros 30,000 o bobl yn byw yno ac mae'r cysylltiad â Burroughs a Tarzan yn parhau. Mae'n bosib gweld coed tal yn tyfu ar hyd rhai o'r strydoedd ac ynddynt mae anifeiliaid y jyngl yn cuddio (nid rhai go iawn, wrth gwrs!). Mae anifeiliaid i'w gweld ar y lampau yn y strydoedd hefyd. Mae cerrig mawr wedi eu gosod hwnt ac yma fel bod pobl yn gallu eistedd arnyn nhw yn hytrach nag ar y meinciau arferol, ac mae rhai o'r gwrychoedd wedi eu torri ar ffurf jiraffod, gorilaod, eliffantod a fflamingos. Byddai Tarzan yn teimlo'n gartrefol iawn yma!

Os hoffech chi ddod ar y daith, mae'r manylion yngl□n â'r dyddiadau, y pris, yr awyrennau, y gwestai ac ati ar gefn y llythyr. Ffoniwch yr ysgrifennydd os hoffech chi ddod gyda ni.

Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau bod yn aelod o'r gymdeithas.

Yn gywir

Bill Thomas
(Cadeirydd)